PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

**ARHOLIAD MYNEDIAD**
**IONAWR 2020**

# ECONOMEG

**Amser - 1.5 awr**

**Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr:**
**a) Atebwch unrhyw ddau gwestiwn**
**b) Cewch ddefnyddio cyfrifianellau safonol nad oes modd eu rhaglennu.**

---

1. Trafodwch effeithiolrwydd polisïau cyllidol ac ariannol o dan system cyfraddau cyfnewid. **(50 marc)**

2. Trafodwch oblygiadau economaidd y newid yn yr hinsawdd. **(50 marc)**

3. Atebwch yr holl gwestiynau isod:

   Tybiwch eich bod yn economegydd sy'n rhoi cyngor i weinidog iechyd. Amcanion y llywodraeth yw lleihau nifer y bobl sy'n ysmygu a chynyddu refeniw. Beth yw'r dewisiadau polisi sydd ar gael? Pa bolisi fyddech chi'n ei awgrymu? Defnyddiwch ddiagramau i esbonio'ch ateb.
   **(50 marc)**

4. Atebwch yr holl gwestiynau isod:
   a. Disgrifiwch swyddogaethau'r farchnad ariannol. **(25 marc)**
   b. Esboniwch swyddogaeth y Banc Canolog/Banc Lloegr yn y system ariannol. **(25 marc)**

5. Atebwch yr holl gwestiynau isod:
   a. Rhowch amlinelliad o'r model cystadleuaeth berffaith. Nodwch y rhagdybiaethau sy'n sail i'r model cystadleuaeth berffaith. Tynnwch ddiagram o gwmni perffaith gystadleuol sy'n gwneud elw rhediad byr. **(30 marc)**
   b. Esboniwch pam nad yw'r model cystadleuaeth berffaith yn realistig iawn o bosib. **(20 marc)**

6. Atebwch yr holl gwestiynau isod:
   a. Esboniwch beth yw isafswm cyflog. Dangoswch sut y gallai gosod isafswm cyflog greu diweithdra mewn marchnad lafur gystadleuol. **(25 marc)**
   b. Trafodwch a yw'r isafswm cyflog yn rhaglen effeithiol yn erbyn tlodi **(25 marc)**

*... parhad*

7. Atebwch yr holl gwestiynau isod:

   a. Mae anghydraddoldeb yn faes astudio pwysig ym maes Economeg. Esboniwch sut mae anghydraddoldeb wedi cael ei fesur.

   **(25 marc)**

   b. Trafodwch pam y mae llawer o lywodraethau yn gwneud ymdrech i leihau anghydraddoldeb.

   **(25 marc)**

8. Trafodwch y dadleuon o blaid ac yn erbyn masnach rydd. **(50 marc)**